**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**17 EBRILL 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas ddydd Mawrth, 17 Ebrill 2018

**PRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Colin Legg, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd a'r Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorwyr: Rosetta Dolphin a Patrick Heesom; Sally Gee, Uwch Archwilydd Cyngor Sir y Fflint; Gwladys Harrison (Cadeirydd) a Mary Auty (Ymddiriedolwr) *Greenfield Valley Trust Ltd*

**CYFRANWYR:** Y Cynghorwyr Chris Bithell, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd; y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet dros y Strydlun a'r Wlad; Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol; Rheolwr Diogelu'r Gymuned a Busnes a Swyddog Rheoli Llygredd.

**PRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd a Swyddogion o'r Gwasanaethau Democrataidd.

## 67. DATGANIADAU CYSYLLTIAD

Ni chafwyd rhai.

## 68. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2018 a'r cyd gyfarfod ar 15 Mawrth 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'r Cadeirydd i'w llofnodi.

## 69. YMWELIAD A CHYFLWYNIAD I BARC TREFTADAETH AMGUEDDFA DYFFRYN MAES GLAS

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) ddiweddariad ar gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad yr Archwiliad Mewnol ar lywodraethu, ariannu a threfniadau gweithredu ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas.

Traddododd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol gyflwyniad ar y canlynol:

- Cefndir
- Cwmpas yr Archwiliad
- Archwiliad – meysydd a reolwyd yn dda
- Archwiliad – meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach
- Prif newidiadau 2017/18
- Amcanion y Cynllun Busnes

Yn ystod y cyflwyniad, eglurodd y Rheolwr nifer o ddatblygiadau allweddol megis penodi swyddog gweinyddol/ariannol i gynorthwyo gwelliannau i systemau'r swyddfa gefn a symud i fodel mwy cyfunol dan y portffolio Cynllunio a'r Amgylchedd. Fel rhan o'r newidiadau strwythurol, roedd y ddau Arweinydd Tîm yn chwarae rôl allweddol yng nghyhoeddi'r gweithgareddau yn y wlad, gwella pryd a gwedd y safle a chynyddu ymgysylltu cyhoeddus, yn arbennig trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae trefniadau llywodraethu wedi eu hatgyfnerthu trwy recriwtio pedwar Ymddiriedolwr newydd a chadw rhai o'r Ymddiriedolwyr blaenorol i roi cymorth yn ystod y cyfnod o drosglwyddo. Byddai'r cynllun busnes tair blynedd yn sail i'r cytundeb rheoli diwygiedig ac yn sicrhau yr atebid anghenion y bartneriaeth. Dywedodd y Rheolwr y cydnabuwyd yr heriau blaenorol a dywedodd fod perthynas weithio cadarnhaol bellach rhwng y tîm a'r Ymddiriedolwyr i gydweithio tuag at yr un amcanion.

Fel Aelod Cabinet, mynegodd y Cynghorydd Carolyn Thomas ei gwerthfawrogiad am y gwaith a waned a'r cynlluniau i godi proffil y safle yn y dyfodol.

Bu i'r Cynghorydd Shotton ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad a phwysleisiodd ar yr angen i godi cyhoeddusrwydd y parc, yn arbennig gerbron twristiaid sy'n ymweld o dramor. Eglurwyd bod marchnata yn elfen bwysig o waith y tîm gan ddefnyddio cysylltiadau presennol a chreu rhai newydd er mwyn datblygu strategaeth hirdymor, a bod y wefan newydd ar fin mynd yn fyw.

Trafododd y Cynghorydd Chris Dolphin am gymaint o werthfawrogiad a chefnogaeth sydd i'r parc a dywedodd mai yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn unig y profwyd trafferthion. Mynegodd bryderon ynghylch canfyddiadau'r adroddiad archwilio a chwestiynodd y camau gweithredu sy'n mynd rhagddynt ynghylch y trefniadau llywodraethu; dywedodd y dylai cofnodion Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fod ar gael i'w gweld. Bu iddo drafod y dyddiad terfyn ar gyfer gweithredu a mynegi ei siom ynghylch y diffyg manylder yn yr adroddiad eglurhaol yr oedd yn gobeithio yr eid i'r afael ag o yn y diweddariad nesaf. Cyfeiriodd at yr effaith negyddol ar y gymuned yn sgil y penderfyniad blaenorol i dynnu'r pegiau pysgota o'r pwll yn y safle i atal pysgota.

Eglurodd y Prif Swyddog mai erbyn mis Medi 2017 yr oedd yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno ymrwymiad i dderbyn argymhellion adroddiad yr archwiliad, a oedd yn yr agenda at ddibenion didwylledd. Byddai'r Archwiliad Mewnol yn monitro'r camau gweithredu ac yn adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2018. Roedd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys rhai aelodau newydd â sgiliau pwysig i gynorthwyo datblygiad a chynaliadwyedd y safle. Er mwyn cynnal elfen o barhad, cytunodd rhai cyn-aelodau i aros, yn cynnwys y Trysorydd (fel y nodir yn adroddiad yr archwiliad) a fyddai'n aros ar y Bwrdd dros y cyfnod trosglwyddo.

Cyfeiriodd Gwladys Harrison at ganfyddiadau adroddiad yr archwiliad ac eglurodd fod peth o'r wybodaeth a geisid ar gael yn rhywle arall ar y pryd. Fel yng nghyflwyniad y Rheolwr, rhoddodd sicrwydd bod y bartneriaeth yn cydweithio i wneud i'r Ymddiriedolaeth ddwyn elw a gofynnodd am gymorth Aelodau etholedig i wneud hyn. Yn ymateb i bryderon y Cynghorydd Dolphin ynghylch tynnu'r pegiau pysgota, darllenodd ddatganiad yn egluro cefndir y penderfyniad, gan ychwanegu y byddai cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chyngor Tref Treffynnon ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r ffeithiau ar y pryd. Eglurodd na fu dewis ond atal pysgota, er gwaethaf ymdrechion taer y Bwrdd ar y pryd, oherwydd anterth materion a allai beryglu bywyd, problemau diogelwch ac effaith ar fywyd gwyllt. Cyfeiriodd at drafodaethau a oedd wedi eu trefnu er mwyn ail-gyflwyno pysgota yn y safle yn hwyrach yn y flwyddyn.

Siaradodd y Cynghorwyr Johnson, Perfect, Legg, Hinds a Hughes o blaid y cynnydd a wnaed ac yr amcanion at y dyfodol y gobeithient y byddent yn llwyddiannus. Codwyd nifer o awgrymiadau ynghylch ehangu marchnata'r safle i ardaloedd megis Glannau Merswy, gan gynnwys safleoedd lleol eraill o ddiddordeb ar yr un deunydd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth mewn cylchlythyrau Cynghorau Tref/Cymuned a gan Aelodau'r Cyngor.

Gan groesawu'r cysylltiadau gwell â Chyngor Tref Treffynnon, gobeithiai'r Cynghorydd Rosetta Dolphin y byddai'r cynlluniau ar gyfer y parc yn llwyddiannus. Gofynnodd beth oedd yr amserlen a ragfynegid ar gyfer gwella'r risgiau 'coch' yn adroddiad yr archwilio, a dywedodd y Prif Swyddog yr adroddir am y cynnydd arth y Pwyllgor Archwilio. Cytunodd y byddai'r cynllun busnes ar gael i'r Pwyllgor ac i Gyngor Tref Treffynnon wedi ei gyflwyno i Fwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Mai.

Yn ymateb i ymholiad ynghylch cymharu â threfniadau ym Mharc Gwepra, eglurodd y Rheolwr fod y model hwn yn wahanol ac yn cael ei reoli'n fewnol. Roedd y trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas yn wahanol oherwydd bod y safle'n cynnwys Amgueddfa. Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Dunbobbin, cafwyd eglurdeb ynghylch 'Cyfeillion Parc Gwepra' fel grŵp cymunedol â buddiant yn y safle, yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac Aelodau etholedig.

Siaradodd y Cadeirydd o blaid y cynlluniau a mynegi ei ddiolch i'r Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol a Gwladys Harrison am roi taith o'r safle cyn y cyfarfod.

Yn ystod trafodaeth ynghylch yr argymhellion, cynigiodd y Cynghorydd Chris Dolphin addasiad a chytunodd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r diweddariad a'r cyflwyniad; ac
(b) Y dylai'r Pwyllgor dderbyn diweddariad gwybodaeth bob chwe mis.

## 70. ANSAWDD YR AER YN SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Cynghorydd Chris Bithell adroddiad ar ganfyddiadau'r adroddiad Ansawdd Aer rhanbarthol, a baratowyd ym mis Awst 2017, er mwyn

ystyried sut y gallai’r Cyngor wneud mwy i hyrwyddo ystyriaethau ansawdd aer wrth wneud penderfyniadau strategol allweddol a gweithredol. Wrth amlygu pwysigrwydd y testun, roedd yn falch o nodi y cofnodwyd ansawdd aer da yng ngogledd Cymru ond bod angen gwella eto.

Trafododd y Rheolwr Diogelu’r Gymuned a Busnes am effaith ansawdd aer ar iechyd a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi canmol y dull o gomisiynu’r adroddiad ar y cyd. Dywedodd fod y testun nawr yn flaenoriaeth i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chyflwynodd y Swyddog Rheoli Llygredd a aeth ati i ddangos y tiwbiau monitro a ddefnyddia i roi syniad o lefelau ansawdd yr aer.

Yn ymateb i gwestiynau, eglurodd leoliadau monitro a’r dull o fonitro’n fwy dwys. Dywedodd y byddai modd anfon e-bost yn cynnwys dolen at Fforwm Ansawdd Aer Cymru at aelodau’r Pwyllgor. Byddai cyflwyno projectau i ysgolion gael monitro dros eu hunain hefyd yn helpu codi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith disgyblion.

Eglurodd y Rheolwr fod yr adroddiad blynyddol yn ofyn statudol a bod yn rhaid ystyried y canfyddiadau ar gyfer unrhyw waith datblygu a gynllunnir.

Yn dilyn sylwadau ar effaith rheoli traffig, dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas bod oedi yn aml yn ganlyniad i waith gan gwmnïau gwasanaethau ac y dylid cyfeirio unrhyw bryderon i’r Goruchwylydd Ardal perthnasol. Cyfeiriodd at Strategaeth Fws Sir y Fflint, a oedd yn hyrwyddo defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gyda rhai gweithredwyr yn defnyddio bysiau allyrron isel.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y byddai’r Cyngor yn hybu’r holl benderfyniadau a pholisïau, pan fo’n addas, er mwyn ystyried yr effaith ar ansawdd yr aer;

(b) Y dylai’r Cyngor weithio â’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o’i thema amgylcheddol, i hyrwyddo dull aml-asiantaeth i fynd i’r afael ag ansawdd yr aer; a

(c) Nodi cynnwys Adroddiad Ansawdd Aer Awdurdodau Gogledd Cymru Ar y Cyd.

## 71. RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol i’w ystyried. Dywedodd y gofynnwyd eisoes i Aelodau gyflwyno cwestiynau penodol ar Orfodi’r Gofal Amgylcheddol cyn yr eitem ar agenda’r cyfarfod nesaf. Byddai trefniadau tebyg hefyd yn berthnasol i gyfarfod mis Medi ac eitem ar Gyfoeth Naturiol Cymru.

Byddai dyddiadau cyfarfodydd blwyddyn y Cyngor 2018/19 yn cael eu cynnwys yn Raglen Gwaith i’r Dyfodol unwaith y cytunir ar y dyddiadur yn y Cyfarfod Blynyddoedd Cyffredinol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; ac

(b) Awdurdodi'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng y cyfarfodydd yn ôl yr angen.

## 72. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Cychwynnodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am hanner dydd)

..............................

**Cadeirydd**